

## Efe a Atgyfododd yn wir. Haleliwia!

Dathliad llawn llawenydd a gobaith yw'r Pasg. Ar ddydd Gwener y Groglith fe aeth Gwardwr y byd i'r groes er mwyn y ddynoliaeth oherwydd maint cariad Duw tuag at y ddynoliaeth yn gyfan.

Drwy'r Groes fe gymodwyd dyn â Duw.

Chwalwyd y muriau ffals a godwyd gan ddyn a thrwy fydd daeth cyfle i'r ddynoliaeth ddychwelyd at Dduw.

Fe dalodd Crist y ddyled ar ein rhan:

*Hwn yw'r Oen, ar ben Calfaria  
aeth i'r lladdfa yn ein lle,  
swm ein dyled fawr a dalodd  
ac fe groesodd filiau'r ne';  
trwy ei waed, inni caed  
bythol heddwch a rhyddhad.*

Wrth inni wynebu her ein hoes seciwlar dyma newyddion da o lawenydd mawr yn wir. Ond nid Gwener y Groglith oedd diwedd y stori.

Ar fore'r trydydd dydd cyfododd Crist o blith y meirw. Ymddangosodd i'r disgyblion ac wrth iddynt brofi presenoldeb byw Crist yn eu plith fe fu iddynt dderbyn tangnefedd a bendith aruthrol.

Wrth i ninnau y Pasg hwn ddisgwyl pethau mawr i ddigwydd fe fydd Crist eto yn rhoi nerth a chynhaliaeth i ni.

Bydd yn rhoi gobaith i ni wrth i ni sylweddoli mai'r Crist byw atgyfodedig yr ydym yn ei ganlyn a'i addoli.

*Mae'r Iesu'n fuddugol a'i bobl  
yn fyw  
yn fwy na choncwerwyr drwy  
gariad Mab Duw  
er profi gorthrymder neu  
newyn neu gledd  
does ball ar y cariad agorodd y  
bedd.*

Cofiwn mai un amyneddgar, llawn gras a chariad yw ein



### Crist Ar Y Groes

**Pwy yw hwn sydd yn poeni – Iesu yw  
Roes ei waed i'n golchi;  
Drwy fawr boen bu'n dihoeni,  
A'i boen oedd ein beiau ni.**

**Y cyfiawn uniawn yno – a fwriwyd  
I'w farwol groeshoelio;  
Gwanwyd eirf drwy ei gnawd o,  
A'i Dduwdod gadd ei wawdio.**

**Ei Dduwdod oedd guddiedig; dyn welwyd  
Dan hoelion, yn unig;  
Gwres y ddeddf dan y groes ddig-  
Gwaedodd y bendigedig.**

**Cofir angau cyfryngol – yr Iesu  
Drwy'r oes fawr dragwyddol;  
O'i frodyr niferiadol  
Ni bydd un mewn bedd yn ôl.**

Harglwydd byw. Nid yw byth yn rhy hwyr.

Mae yn parhau i sefyll wrth ddrws y galon o hyd. Nid yw ef yn troi ei gefn ar yr un ohonom, y ni sy'n pellhau oddi wrtho ef.

Yr un yw ef ddoe, heddiw ac yfory.

Rhaid i ninnau ymateb i alwad y Crist byw y Pasg hwn gan fynd ymlaen yn hyderus ac yn ffyddiog i wasanaethu ein Harglwydd. Heddiw mae gennym waith i'w wneud fel disgyblion y Crist byw atgyfodedig.

Yn doo ef y daw gobaith i fyd sy'n llawn anobaith, llawenydd i fyd sy'n llawn tristwch, goleuni i fyd sy'n llawn tywyllwch a heddwch i fyd sy'n llawn atgasedd, creulondeb a thrais. Gan mai'r Crist buddugoliaethus ydy ein Crist ni mae gobaith o hyd i ddynolryw. Crist a orchfygodd; a gan ei fod yn fyw heddiw, mae'n trigo yn ein plith ac mae'r gobaith hwnnw yn real iawn.

Parhawn ninnau i ymateb i'w alwad: 'Pwy a anfonaf? Anfon fi.'

Cyhoeddwn y Pasg hwn fod yna obaith a bod y gobaith hwnnw yn y Crist byw atgyfodedig. Peidiwn digalonni.

Ie, dathliad yw'r Pasg, dathliad llawn llawenydd a gobaith.

*Y mae i'n Waredwr  
Iesu Crist Fab Duw,  
werthfawr Oen ei Dad, Meseia,  
sanctiaidd, sanctiaidd yw.*

*Diolch, o dad nefol,  
am ddanfod Crist i'n byd,  
a gadael dy Ysbryd Glân  
i'n harwain ni o hyd.*

**Parch Brian Huw Jones,  
Llywydd y  
Gymanfa Gyffredinol**